



YN Y GEGIN

Quesadilla

Cynhwysion (ar gyfer 1 quesadilla):

- 1 tortila
- 1 llond dwrn mawr o gaws (wedi gratio)
- Dewis o'ch hoff lenwadau wedi'u torri'n fân (e.e. tomatos, nionyn, ham, cyw iâr)

Byddwch hefyd angen:

- Padell ffrio
- Sbatwla neu rywbeth tebyg

YN Y GEGIN - Quesadilla

Dull:

- Cynheswch badell ffrio sych dros wres canolig a rhoi'r tortila ynndi'n ofalus
- Ysgeintiwch hanner y caws dros hanner y tortilla, gan adael yr hanner arall yn blaen
- Yna ychwanegwch y llenwadau rydych chi wedi'u dewis (neu fe allwch chi wneud un gyda chaws yn unig)
- Ychwanegwch weddill y caws
- Gan ddefnyddio sbatwla, plygwch y tortila drosodd yn ofalus, tebyg i siâp hanner lleuad
- Gadewch iddo goginio am ychydig funudau bob ochr nes bod y caws wedi toddi

AWGRYM GWYCH:

Mwynhewch gyda salad lliwgar, neu hyd yn oed bowlen o gawl

